gweithgareddau. Diolch i bawb am eu cyfraniadau ac i Aaron Stephens am drefnu'r disgo i ddilyn.

Aeth criw o blant, rhieni ac athrawon o amgylch y pentre yn canu carolau ar y nos Fercher. Llawer o ddiolch i'r pentrefwyr am eu cyfraniadau. Casglwyd swm dda a rhannwyd yr arian rhwng yr ysgol a Ward y Plant, Ysbyty Bron-glais.

Cawsom drip lawr i'r Sinema cyn dod yn ôl i ginio Nadolig bendigedig wedi'i baratoi gan Mrs Prysorwen Davies. Bu pawb yn tynnu craceri ac yn bwyta a bwyta! Diolch yn fawr Mrs Davies.

Bu'r babanod yn lwcus iawn o'r cyfle i fynd am dro i Fwlch Nant yr Arian i weld Siôn Corn yn yr eira!! Prynhawn bythgofiadwy gyda chyfle i fwydo'r Barcud ac i sglefrio.

RYSETIAU! - Bwyd, bwyd a mwy o fwyd oedd ein hanes dros y Nadolig. Lwcus i ni bod llyfr rysetiau plant yr ysgol wedi dod i law mewn da bryd. Am bris o £4.50c mae yn fargen a hanner ac yn llawn o dros gant o rysetiau sawrus a melys amrywiol. Cysylltwch â Miss Helen Davies yn yr ysgol am eich copi.

Cwis llyfrau

Pob lwc i'r tîm ail-iaith a'r tîm iaith gyntaf yn rownd derfynol cwis llyfrau Ceredigion.